Pecyn Pontio
Addysg Grefyddol

Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso mawr i'r cwrs hwn. Rwyf yn edrych ymlaen yn eiddgar i gael dechrau ar y daith hon drwy destunau diddorol gyda chi.

https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/astudiaethau-crefyddol-ug-safon-uwch/#tab_overview

Bydd y cwrs UG/Safon Uwch Astudiaethau Crefyddol yn eich galluogi chi fel dysgwyr i ddatblygu brwdfrydedd a diddordeb mewn astudiaeth o grefydd a lle crefydd yn y byd ehangach.

Dyma'r sgiliau y byddwch yn eu datblygu dros y ddwy flynedd:

- deall, dehongli a gwerthuso'n feirniadol gysyniadau, testunau a ffynonellau crefyddol eraill
- canfod, dadansoddi'n feirniadol ac ymchwilio i gwestiynau, dadleuon, syniadau a materion sy'n codi o'r unedau
- llunio dadleuon gwybodus a rhesymegol, ar sail tystiolaeth berthnasol
- cymryd rhan mewn dadl mewn modd sy'n cydnabod hawliau eraill i gael safbwynt gwahanol

Gwaith Cychwynnol

https://www.bbc.co.uk/news/av/world-middle-east-52189059/coronavirus-israel-s-ultra-orthodox-lockdown-challenge?fbclid=IwAR0xj1pSXkG2rV1nsawaCLgbvuVybnE34y0WkSfGIntGdNzQkxsCfsVLIDA

Gwyliwch y clip a thrafodwch efo'ch ffrind/aelod o'r teulu beth rydych wedi'i ddysgu am gymuned Uniongred Iddewig a phwysigrwydd crefydd fel ffordd o fyw iddyn nhw yn ystod yr argyfwng.

https://www.bbc.co.uk/news/world-52198508

Lluniwch boster gwybodaeth ar sut mae pobl grefyddol yn dathlu gwyliau crefyddol yn ystod pandemig y Coronavirws

https://www.youtube.com/watch?v=ZTI3P9zx-oY https://www.youtube.com/watch?v=9TqJrvtt9ws

Lluniwch fap meddwl o'r prif bwyntiau rydych wedi ei ddeall am y grefydd Bwdhaeth a'i phrif gredoau ac arferion, a gwrando ar y cyflwyniad i'r cwrs Moeseg ac Athroniaeth.

Gosod gwaith ymchwil

https://www.dailymotion.com/video/x6ciehd
The Story of God with Morgan Freeman: Why Does Evil Exist?
Ymchwil i'r uned Moeseg (Ethics)
Beth oedd y prif ganfyddiadau wnaeth Morgan Freeman wrth astudio pam bod yna ddrygioni yn y byd?

https://www.netflix.com/gb/title/80113701
'The Good Place' cyfres ar Netflix
Beth am wylio'r gyfres hon sydd yn taro ar sawl thema fydd yn cael eu trafod yn yr uned Athroniaeth (Philosophy)

https://www.youtube.com/watch?v=nsN7NLs-0jI
The Life of the Buddha Animation
Pwy oedd y Bwdha? Pam ei fod mor arwyddocaol yng nghrefydd Bwdhaeth?

Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

CBAC Ast Crefyddol UG - ATHRONIAETH CREFYDD
978-1-911208-30-3
CBAC Ast Crefyddol UG - Bwdhaeth
978-1-911208-62-4
CBAC Ast Crefyddol A2 - Athroniaeth Crefydd
978-1-911208-76-1
CBAC Ast Crefyddol A2 - Bwdhaeth
978-1-911208-93-8

CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Athroniaeth Crefydd Canllaw Adolygu
978-1-912820-21-4

CBAC Astudiaethau Crefyddol UG Crefydd a Moeseg Canllaw Adolygu
978-1-912820-28-3

http://www.rsrevision.com/Alevel/boards/eduqas/revision.html

Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

Mae'r cwrs UG yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a feithrinwyd yn ystod TGAU. Nid oes rhaid bod wedi astudio Astudiaethau Crefyddol i safon TGAU, gan bod nifer o sgiliau pynciau eraill yn gallu bod yn sylfaen dda.
Mae'r cwrs UG a A2 yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio Astudiaethau Crefyddol neu faes tebyg, drwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth.